# Adroddiad Grŵp Cyflawni BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias

| | |
|---|---|
| **Nod Cynllun Llesiant** | Bydd pob Grŵp Cyflawni seiliedig ar le yn anelu at fynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith darparu seiliedig ar le yn blaenoriaethu integreiddio a chyfrannu ar gyfer cydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Llesiant Llanbedr Pont Steffan |
| **Cadair**<br>**Is-Gadeirydd** | **Greg Jones**, Cyngor Sir Ceredigion<br>**Gwilym Dyfri Jones**, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Timothy Bray, Sara Dafydd, Carwyn Young,** Rhidian Harries, Rob Starr, **Cathryn Morgan, Connor Cook**, Sarah Groves-Phillips, Gethin Jones, Llinos Hallgarth, Lowri Evans, Lynne Walters, Rachel Auckland, Alison Heal, **Cllr Ann Bowen Morgan,** Sian Salcombe, Sara Humphreys, **David Jones**, Bethan James, Anwen Thomas, **Teleri Elias**, **Eirlys Lloyd,** Rachel Cutler, **Joy Lake,** Rhiannon John | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies, Thomas Vetter |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Jina Hawkes, Peter Skitt, **Terri-Ann Patrick,** Meinir Harries, Nathan Davies, Dr Phil Kloer, Jan Batty, Angela Burns, Trina Nealon, **Sandra Mitchell, Robert Allen, Geinor Jones, Mari Lewis** | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Emyr Jones, Hazel Thomas, **Laura Cait Driscoll** |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Heddlu Dyfed-Powys | Yr Arolygydd Matthew Howells | Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | Wayne Thomas, Iwan Cray |
| Barcud | Catrin Owen, Helen Draycott | CAVO | **Hazel Lloyd-Lubran, Teleri Davies** |
| Home-Start | Sharon Morris | Ysgol Bro Pedr | Deiniol Williams |
| Banc Bwyd Llambed | Julia Lim | Canolfan Teulu Llambed | Elin Miles, Jen Leigh |
| Arts4Wellbeing | Mike Hotson, Sara Wentworth | Tai Wales & West | **Rhiannon Ling** |
| Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | **Vikki Butler** | Area 43 | Becca Head |
| Cyngor Tref Llambed | **Elen Page** | PLANED | **Sue Lewis** |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 18.04.24**

**10.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:**
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Nodwyd bod y canlynol wedi ymddiheuro am na fedrent ddod i'r cyfarfod: *Catrin Owen, Nathan Davies, Jina Hawkes, Elen James, Rhiannon John, Mike Hotson, Sara Wentworth.*

**10.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024 yn gofnod cywir o'r trafodaethau. Cytunwyd bod mwyafrif y camau gweithredu wedi cael eu cwblhau neu eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod. Mae'r cam gweithredu canlynol heb ei gwblhau o hyd:
*Sara Dafydd i gysylltu ag Eco Hub Aber i holi a yw'r Grŵp Cyflawni yn gallu cynorthwyo'r ymarfer mapio lleoedd tyfu cymunedol.*
**Parhaus: Ailystyrir hwn yn ystod y cyfarfod nesaf fel rhan o drafodaeth ehangach ynghylch llesiant a bwyd yn Llanbedr Pont Steffan.**

DRAFT

**10.3 Eitem sefydlog: Diweddariad BGC – Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni BGC Ceredigion – gan gynnwys adborth gan y BGC (04.03.24):**
Rhoddodd Timothy Bray (TB) ddiweddariad am Gynllun Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion, sy'n cynnwys Cyfleuster Olrhain Camau Gweithredu sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau dros y tymor canolig. Yn ystod Digwyddiad Dysgu BGC a gynhaliwyd yn ddiweddar, mynegwyd syniad ynghylch cyflwyno 'sesiwn hyrwyddo' a fyddai'n canolbwyntio ar amcan llesiant penodol yn ystod pob cyfarfod chwarterol BGC – adroddodd TB bod aelodau'r BGC yn awyddus i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn er mwyn caniatáu ymdriniaeth ddofn o weithgarwch. Bydd y Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur yn cyflwyno'r sesiwn hyrwyddo gyntaf yn ystod cyfarfod nesaf BGC ym mis Mehefin, gan roi ffocws penodol ar yr Asesiad Risg a Chyfle Newid Hinsawdd. Trefnwyd cyfarfod o'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 22 Ebrill i drafod y digwyddiad er mwyn lansio'r Cynllun Llesiant Lleol.

Nododd TB y rhannwyd dogfen gyfeirio cyn y cyfarfod, a oedd yn amlinellu camau gweithredu allweddol a nodwyd ar gyfer y Grŵp Cyflawni yn y Cynllun Cyflawni Blaenoriaeth (2024-2026) tymor canolig. Bydd y camau gweithredu allweddol hyn yn cynnig cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer mwy o ddatblygiad yn ystod y gweithdai ar ddiwedd 2023. Esboniodd Sara Dafydd (SD), er y bydd angen i'r Grŵp Cyflawni ystyried holl elfennau'r Cynllun Llesiant, bydd hi'n naturiol y bydd rhan fwyaf o waith y grŵp yn cyflawni yn erbyn Amcan 2 (Llesiant Cymdeithasol).

**10.4 Cylch Gorchwyl, Blaenoriaethau ac Aelodaeth:**
Dosbarthwyd y Cylch Gorchwyl (CG) drafft cyn y cyfarfod er mwyn i'r aelodau ei ystyried. Er nad oedd yr aelodau wedi gwneud unrhyw geisiadau am ddiwygiadau iddo, nododd SD bod deunydd wedi cael ei gynnwys yn y drafft er mwyn adlewyrchu thema trawsbynciol Tlodi a Chaledi – Amlygwyd y diwygiadau hyn er mwyn hwyluso gweithgarwch cyfeirio. Adroddodd SD y cytunwyd hefyd yn ystod cyfarfod mwyaf diweddar Is-grŵp Tlodi BGC y byddai aelod yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Cyflawni, ac i'r gwrthwyneb, er mwyn sicrhau cysylltiadau. Mae cyfeiriad yn y CG at yr adroddiad Tlodi ac Amddifadedd a luniwyd yn 2023 gan Dîm Perfformiad ac Ymchwil Cyngor Sir Ceredigion (CSC) ar ran BGC Ceredigion, a oedd yn archwilio'r prif faterion yn ymwneud â thlodi ac amddifadedd yn y dref a'r cyffiniau. Bydd yr adroddiad hwn, ymhlith rhai eraill, yn parhau i helpu i dywys gwaith y grŵp a'r camau a gymrwyd yn Llanbedr Pont Steffan i fynd i'r afael â chaledi a gwella llesiant. Cynigiodd SD y dylid estyn gwahoddiad i Rob Starr (Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil, CSC) i gyflwyno diweddariad am yr adroddiad yn ystod cyfarfod yn y dyfodol. Yn olaf, nodwyd bod cyfeiriad at ddull gweithredu Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau (ABCD) wedi cael ei gynnwys yn y CG.

Cyflwynodd SD gopi o Gyfleuster Olrhain Gweithgarwch drafft i'r grŵp ei ystyried – Diben y ddogfen hon yw monitro gweithgarwch y grŵp, a chysylltu camau gweithredu gydag uchelgais o fewn y Cynllun Llesiant Lleol. Cynigiodd SD y bydd y Cyfleuster Olrhain yn

DRAFT

ddogfen weithio a fydd yn tyfu gyda'r grŵp wrth i feysydd gwaith ddatblygu. Hyd yn hyn, mae'r Cyfleuster Olrhain Gweithgarwch yn cynnwys 3 maes gwaith –

1.) Archwilio dichonoldeb Prosiect Ieuenctid yn Llanbedr Pont Steffan.
2.) Mynd i'r afael â Chaledi ac Amddifadedd yn Llanbedr Pont Steffan.
3.) Gweithgareddau Ataliol Sylfaenol ac Eilaidd yn Llanbedr Pont Steffan.

Mae'r Tîm Cymorth BGC wedi bod yn monitro'r rhestr bresenoldeb ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Cyflawni hefyd, ac mae wedi canfod nad yw rhai aelodau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr ddosbarthu wedi mynychu ers cryn amser. Holodd SD i'r aelodau gysylltu â Thîm y Bartneriaeth os ydynt yn dymuno cael eu tynnu oddi ar y rhestr, neu os ydynt yn dymuno enwebu cydweithiwr i fynychu yn lle hynny.

**Gweithredu: Sara Dafydd i gysylltu yn uniongyrchol ag aelodau nad ydynt wedi mynychu ers amser.**
**Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i ailddosbarthu'r CG diwygiedig i aelodau ei ystyried a rhoi adborth ar gyfer ei gymeradwyo yn derfynol.**
**Gweithredu: Gwahodd Rob Starr i gyfarfod yn y dyfodol i gynnig diweddariad am Adroddiad Tlodi ac Amddifadedd Llanbedr Pont Steffan.**

**<u>10.5 Cyflwyniad Tîm Datblygu Cymunedol Hywel Dda*:</u>**
Cyflwynodd Sandra Mitchell (SM) ei hun fel Rheolwr Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd), a Rob Allen (RA) fel Swyddog Allgymorth Datblygu Cymunedol dros Geredigion. Mae'r Tîm yn gweithio ar draws 3 sir ac yn gweithio gyda chymunedau amrywiol a grwpiau agored i niwed i hyrwyddo negeseuon iechyd cynnar ynghylch atal. Maent yn cynnig ymateb cyflym i ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cyrraedd Cymru. Mae gan y Tîm gardiau dehongli sydd ar gael mewn 40 iaith hefyd, sy'n caniatáu i bobl ofyn am wasanaeth cyfieithu pan fyddant yn ymweld â meddyg teulu neu'r ysbyty.

Rhoddodd RA drosolwg o'i waith yn ardal Llanbedr Pont Steffan, sy'n cynnwys ymgysylltu â Mind's Eye, Canolfan Gymorth CAMFAN, grwpiau ffydd lleol a sesiynau galw heibio misol i gyn-filwyr, a ariannir gan Woody's Lodge. Mae enghreifftiau o negeseuon iechyd yn cynnwys rhoi'r gorau i ysmygu a hyrwyddo brechiad MMR. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCDDS), gyda chymorth CSC, yn cynnal digwyddiad ar 27 Ebrill, a fydd yn ceisio dwyn y gymuned ynghyd i ddathlu amrywiaeth ac a fydd yn estyn croeso a chymorth i'r rhai sydd wedi ceisio lloches yng Nghymru.

DRAFT

**10.6 Eitem Sefydlog: Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc:**
Rhoddodd Cadeirydd Grŵp Llywio y Prosiect Ieuenctid, David Jones (DJ) ddiweddariad am gyfarfod cyntaf y grŵp a gynhaliwyd ar 16 Ebrill. Cafodd y grŵp llywio drosolwg o'r astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan Laura Cait Driscoll (LCD), a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Nododd DJ bod y grŵp wedi ystyried CG drafft ar gyfer y grŵp llywio hefyd, gan fyfyrio am yr aelodaeth. Gwnaethpwyd awgrymiadau gan aelodau'r grŵp llywio ynghylch cynrychiolwyr eraill y byddai modd eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol, megis swyddog y Tîm Plismona Bro (TPB) lleol, Coetir Cymunedol Longwood, ac Ysgol Bro Pedr. Cadarnhaodd SD y cysylltwyd â PCSO INTACT ar gyfer Ceredigion, a fyddai'n mynychu'r cyfarfod nesaf. Bydd y grŵp yn ystyried Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG), a chynigiwyd bod ffigurau troseddu cofnodedig yn cael eu hystyried er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu fannau problemus posibl. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Mai.

Adroddodd Gwilym Dyfri Jones (GDJ) bod PCDDS wedi profi digwyddiadau YG ar y campws yn ddiweddar. Nododd GDJ bod yr Heddlu a'r gymuned wedi bod yn cydweithio i ddatrys y mater hwn, ac mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi gwella yn ddiweddar.
**Gweithredu: Grŵp Llywio y Prosiect Ieuenctid i adolygu ffigurau troseddu ar gyfer Llanbedr Pont Steffan, a nodi tueddiadau a mannau problemus.**

**10.7 Dull System Gyfan Rhanbarthol i Bwysau Iach*:**
Cyflwynodd Geinor Jones (GeJ) ei hun fel Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus Uwch yn y Tîm Iechyd Cyhoeddus o fewn BIPHDd. Yn 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru (LlC) Strategaeth Pwysau Iach Cymru, gyda'r nod o atal a lleihau gordewdra yng Nghymru. Caiff y dull gweithredu ei gydlynu ar lefel genedlaethol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'i weithredu'n lleol. Nod y gwaith hwn yw galluogi rhanddeiliaid lleol i ddod ynghyd i gytuno ar gamau gweithredu a chydweithio mewn ffordd integredig er mwyn sicrhau newid cynaliadwy a hirdymor i'r system, sy'n canolbwyntio ar greu'r amodau sy'n hyrwyddo pwysau iach yng nghyd-destun iechyd a lles gwell. Fideo byr sy'n esbonio'r dull gweithredu system tuag at bwysau iach: [Systems - Healthy Weight Healthy You]

Ym mis Chwefror 2023, hwylusodd y Tîm Iechyd Cyhoeddus, gyda chymorth Prifysgol Beckett Leeds, gyfres o dri gweithdy mapio 'system gyfan'. Yn ystod y gweithdai, bu'r cyfranogwyr yn datblygu 14 o fapiau system ar bapur. Yna, trosglwyddwyd y rhain i feddalwedd mapio system. Nododd GeJ mai'r camau nesaf fydd rhannu'r mapiau ac allbynnau'r gwaith hyd yn hyn yn eang gyda phartneriaid a chymunedau. Mae adroddiad cryno wedi cael ei baratoi hefyd, ac mae modd ei rannu gyda'r grŵp.

DRAFT

Nododd GeJ y bydd y camau nesaf yn cynnwys nodi a mapio ysgogiadau lleol, gan alluogi hygyrchedd i fwyd, diod a theithio iach, yn ogystal â sicrhau mannau diogel ar gyfer gweithgarwch corfforol. Bydd y Tîm Iechyd Cyhoeddus yn canolbwyntio ar hwyluso cyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol yn Aberteifi ac yn Llanbedr Pont Steffan, a chynigiwyd y byddai modd i hyn gael ei gynorthwyo gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru (RhCC) fel rhan o Brosiect Dewi.

Nododd Rhiannon Ling (RL) bod Cymdeithas Tai Wales and West (WWHA) wedi cydweithio gydag RA y llynedd ar ddigwyddiad cymunedol llwyddiannus o'r enw 'Haf o Hwyl' yn Aberteifi. Cynhelir y digwyddiadau hyn unwaith eto eleni, ynghyd â rhaglen weithgarwch i ddwyn cymdogion a chymunedau ynghyd. Nododd RL bod WWHA yn cynnal nifer o ddigwyddiadau cymunedol yn Llanbedr Pont Steffan hefyd, y byddai modd eu defnyddio i ymgysylltu â'r gymuned.

**Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i ddosbarthu Adroddiad Cryno Mapio'r System Pwysau Iach ar draws Hywel Dda.**
**Gweithredu: Vikki Butler a Geinor Jones i drafod cyfleoedd i RhCC gynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu a chyfranogi.**
**Gweithredu: Gwahodd Geinor Jones i gyfarfod yn y dyfodol i roi diweddariad am waith y Dull Gweithredu Systemau Cyfan tuag at Bwysau Iach.**

**<u>10.8 Caru Llambed – Cyflwyniad Cyngor Tref Llambed*:</u>**
Rhoddodd Cynghorydd Elen Page (EP) drosolwg o is-bwyllgor Caru Llanbed Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan. Nododd EP bod is-bwyllgor Caru Llanbed yn mynd ati i weithredu'r Cynllun Bro ar gyfer Llanbedr Pont Steffan, trwy weithio gyda phobl o amrediad o gefndiroedd er mwyn rhoi bywyd newydd i'r dref.

Mae 8 busnes newydd wedi agor yn Llanbedr Pont Steffan yn ddiweddar, ac mae grantiau gan Cynnal y Cardi wedi caniatáu'r dref i adfywiogi. Llwyddwyd i sicrhau cyllid er mwyn cynnal astudiaeth ddichonolrwydd i ganfod yr angen am barc sglefrio yn y dref, a nodwyd lleoliad. Mae Stryd y Farchnad yn ffocws ar gyfer gwaith datblygu hefyd, a bwriedir cynnal sawl digwyddiad lle y defnyddio cabanau newydd a gafwyd y llynedd ar ôl sicrhau cyllid. Yn ogystal, sicrhawyd cyllid ar gyfer hysbysfwrdd rhyngweithiol newydd i hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau lles yn yr ardal. Mae Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan wedi bod yn moderneiddio ei wefan hefyd, ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo digwyddiadau. Adroddodd EP y cynhelir digwyddiad treftadaeth Cymreig ar 5 Mai, o'r enw 'Calan Mai', lle y cynhelir amrediad o weithgareddau i deuluoedd. Y gobaith hefyd yw y cynhelir digwyddiad arddangos ym mis Medi o'r enw 'Llwyddiannau Llambed' i ddathlu llwyddiannau lleol.

**10.9 Prosiect Catalyddion Gofal*:**

Cafwyd cyflwyniad am brosiect Catalyddion Gofal gan Sue Lewis (SL) a Hazel Lloyd-Lubran (HLL), a gaiff ei ariannu tan fis Rhagfyr 2024 trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Mae prosiect rhanbarthol yn bartneriaeth rhwng PLANED, CAVO a CSC ac mae'n cynorthwyo pobl sydd â natur ofalgar a syniad da i sefydlu eu menter gofal neu gymorth eu hunain. Y nod yw ehangu dewis y mentrau gofal a chymorth lleol a bach yng Ngheredigion fel y gall pobl ddewis o blith amrediad o wasanaethau personol a hyblyg sy'n gweithio iddyn nhw. Mae'r prosiect yn cynnwys 2 brif elfen –

- **Rhaglen Microfenter Gymunedol** – Busnes gofal neu gymorth bach sy'n helpu pobl i fyw bywyd annibynnol a da.
- **Rhaglen Menter Gymdeithasol** – Mae Menter Gymdeithasol yn fusnes sy'n masnachu i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, gwella cymunedau, cyfleoedd pobl mewn bywyd neu'r amgylchedd.

Mae 13 o ficrofentrau yng nghyfeiriadur Ceredigion ar hyn o bryd, sy'n cynnwys gwasanaethau gofal a chymorth annibynnol a bach yn y sir. Y camau nesaf yw hysbysu'r gymuned a gweithwyr proffesiynol o'r adnodd sydd ar gael, a chynyddu'r cyfeiriadur er mwyn cynnig mwy o ddewis a chymorth. Nododd SL a HLL y cynhelir gweithgarwch ymgysylltu yn Llanbedr Pont Steffan maes o law. Gweler mwy am brosiect Catalyddion Gofal a'r cyfeiriadur gwasanaethau ar gyfer Ceredigion yma: PLANED | Catalysts for Care

**10.10 Eitem Sefydlog: Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles – Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion:**

Rhoddodd SD ddiweddariad am Fodel Cymdeithasol BIPHDd ar gyfer Iechyd a Lles ar ran Nathan Davies (HD). Bellach, mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Bwrdd Iechyd dros Iechyd Cyhoeddus, Ardiana Gjini (AG), wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros arwain rhaglen y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf 'Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion' ar 29 Ionawr, ac roedd yn cynnwys cyflwyniad gan y Tîm Datblygu Allgymorth Cymunedol. Yn ogystal, cafwyd trafodaeth ynghylch a fyddai modd i sefydliadau partner ddefnyddio meddalwedd 'Elemental' ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol trwy gyfrwng trefniadau trwyddedu darllen yn unig – Caiff dichonolrwydd hwn ei archwilio ymhellach.
Y gobaith yw y cynhelir gwerthusiad o grwpiau 'Creu Newid Gyda'n Gilydd' cyn bo hir i ganfod eu heffeithiolrwydd. Cynhelir cyfarfod nesaf 'Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion' ar 22 Ebrill.

**10.11 Diweddariad Partner / Unrhyw Fusnes Arall:**

- **Bwyd yn Llanbedr Pont Steffan – Hazel Thomas**

DRAFT

Gan bod Hazel Thomas wedi ymddiheuro na fyddai modd iddi fynychu'r cyfarfod hwn, cytunwyd y byddai'r eitem hon yn cael ei chynnwys yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Adroddodd Eirlys Lloyd (EL) bod cyllid ychwanegol wedi cael ei sicrhau gan LIC nawr, felly bydd Ann Owen, Cydlynydd y Bartneriaeth Fwyd Leol yn parhau yn ei swydd am 12 mis arall.

- **Trafodaeth: Cyfeiriadau Gwasanaethau a Gweithgarwch:**

Yn flaenorol, roedd y grŵp wedi ystyried darn o waith a gynhaliwyd gan Jubilee Storehouse ym Mhenparcau, lle'r oedd y banc bwyd wedi argraffu taflenni yn amlinellu gwasanaethau cymorth lleol a'u cynnwys mewn parseli bwyd. Er na symudwyd ymlaen gyda'r syniad o ail-greu adnodd tebyg yn Llanbedr Pont Steffan ar y pryd, holodd SD a oedd y grŵp yn dymuno ystyried hyn eto, gan sefydlu cyfeiriadur o wasanaethau a / neu weithgareddau yn Llanbedr Pont Steffan a'r cyffiniau. Gallai hyn gysylltu ag adnabod ysgogiadau lleol y Dull Gweithredu Systemau Cyfan tuag at Bwysau Iach a Chyfeiriadur Mentrau Gofal a Chymorth Catalyddion Gofal. Awgrymodd GJ y dylid cynnwys y Cysylltwyr Cymunedol yn y darn hwn o waith, gan ddefnyddio'r sgriniau digidol yng Nghanolfan Llesiant Llanbedr Pont Steffan.
**Gweithredu: Sarah Evans i goladu rhestr o weithgareddau a grwpiau yn ardal Llanbedr Pont Steffan a'i rhannu gyda Sara Dafydd.**
**Gweithredu: Cadw'r drafodaeth am y Cyfeiriadur Gwasanaethau a Gweithgarwch fel eitem ar agenda y cyfarfod nesaf.**

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser, a thynnodd y cyfarfod at ei derfyn.

**Dosbarthwyd sleidiau cyflwyniadau gan aelodau'r Grŵp Cyflawni – Cysylltwch â [partnerships@ceredigion.gov.uk](mailto:partnerships@ceredigion.gov.uk) os bydd angen i chi gael copi arall.*

**10.12 Cyfarfod nesaf: 9 Gorffennaf 2024 am 14:00-16:00**

| **Crynodeb o'r Gweithredoedd:** | |
|---|---|
| **a.)** | Sara Dafydd i gysylltu ag Eco Hub Aber i holi a yw'r Grŵp Cyflawni yn gallu cynorthwyo'r ymarfer mapio lleoedd tyfu cymunedol. |
| **b.)** | Sara Dafydd i gysylltu yn uniongyrchol ag aelodau nad ydynt wedi mynychu ers amser. |
| **c.)** | Y Tîm Partneriaethau i ailddosbarthu'r CG diwygiedig i aelodau ei ystyried a rhoi adborth ar gyfer ei gymeradwyo yn derfynol. |
| **ch.)** | Gwahodd Rob Starr i gyfarfod yn y dyfodol i gynnig diweddariad am Adroddiad Tlodi ac Amddifadedd Llanbedr Pont Steffan. |

| | |
|---|---|
| **d.)** | Y Tîm Partneriaethau i ddosbarthu Adroddiad Cryno Mapio'r System Pwysau Iach ar draws Hywel Dda. |
| **dd.)** | Vikki Butler a Geinor Jones i drafod cyfleoedd i RhCC gynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu a chyfranogi. |
| **e.)** | Gwahodd Geinor Jones i gyfarfod yn y dyfodol i roi diweddariad am waith y Dull Gweithredu Systemau Cyfan tuag at Bwysau Iach. |
| **f.)** | Sarah Evans i goladu rhestr o weithgareddau a grwpiau yn ardal Llanbedr Pont Steffan a'i rhannu gyda Sara Dafydd. |
| **ff.)** | Cadw'r drafodaeth am y Cyfeiriadur Gwasanaethau a Gweithgarwch fel eitem ar agenda y cyfarfod nesaf. |

DRAFT